Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 21 Mehefin 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | C L Philpott |
| P M Black | D H Hopkins | S Pritchard |
| J E Burtonshaw | O G James | A Pugh |
| S E Crouch | L James | J A Raynor |
| J P Curtice | Y V Jardine | C Richards |
| N J Davies | P K Jones | K M Roberts |
| A M Day | S M Jones | B J Rowlands |
| P Downing | L R Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | J W Jones | P B Smith |
| M Durke | E J King | R V Smith |
| V M Evans | E T Kirchner | A H Stevens |
| C R Evans | M A Langstone | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | M B Lewis | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | R D Lewis | M Sykes |
| S J Gallagher | W G Lewis | W G Thomas |
| L S Gibbard | A S Lewis | M Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| K M Griffiths | P Lloyd | G D Walker |
| D W Helliwell | I E Mann | L V Walton |
| T J Hennegan | P N May | T M White |
| C A Holley | H M Morris | |
| P R Hood-Williams | D Phillips | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, W Evans, J A Hale, M H Jones, P M Matthews, G J Tanner a/ac L G Thomas

---

### 11. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, S E Crouch, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, S J Gallagher, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, O G James, L James, Y V Jardine, J W Jones, L R Jones, P K Jones, S M Jones, E T King, E T Kirchner, M A Langstone, A S Lewis, M B Lewis, R D Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, I E Mann, P N May, H M Morris, D Phillips, C L Philpott, S Pritchard, A Pugh, J A Raynor, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, M Sykes, D W W Thomas, M Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White gysylltiad personol â chofnod 20 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2017-2018".

**Swyddogion**

1) Datganodd T Meredith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 22 "Y Strwythur Uwch-reoli " a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

## 12. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai 2018;

2) Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 yn amodol ar dynnu enw'r Cynghorydd S M Jones o'r rhestr o ymddiheuriadau a'i nodi'n bresennol.

## 13. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor - Dim.

Ni chafwyd ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredinol diwethaf y cyngor.

## 14. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Gwobrau Grŵp Diogelwch Galwedigaethol De a Gorllewin Cymru (SWWOSG)

Estynnodd yr Aelod Llywyddol ei longyfarchiadau i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch, Rheoli Argyfyngau a Lles Corfforaethol wrth iddo ennill "y Darian Les" gan Grŵp Diogelwch De a Gorllewin Cymru ar gyfer 2017, o ganlyniad i waith arloesol rheoli straen a chwnsela, gwirfoddolwyr Help Llaw a'r Uned Iechyd Galwedigaethol wrth wella lles gweithwyr.

Gwobrwywyd yr Is-adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol hefyd am "Berfformiad Diogelwch Eithriadol" yn 2017 unwaith eto.

Derbyniodd Craig Gimblett, Andy Langford, Tracy Dicataldo a Liz Thomas-Evans y wobr.

Derbyniodd Martin Rogers o'r Is-adran Rheoli Gwastraff (hefyd yn bresennol) wobr am ddod yn ail ar gyfer gweithiwr y flwyddyn gan y grŵp, am ei ymroddiad parhaus i wella safonau iechyd a diogelwch yn y safle byrnu.

### 2) Ysgol Gynradd Treforys - Cystadleuaeth Menter Ysgolion Treftadaeth Cymru 2018

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod Ysgol Gynradd Treforys yn dathlu 150 o flynyddoedd ar 15 Mehefin 2018. Yn ogystal â'r cyflawniad hwn, cafodd yr ysgol ei chydnabod gan Fenter Ysgolion Treftadaeth Cymru gyda gwobr am ei hymdrechion i ddod â'r digwyddiad ynghyd, gyda llawer o fisoedd yn ymchwilio yn Archifau Abertawe i ganfod gwybodaeth am y penaethiaid sy'n dyddio yn ôl i agoriad yr ysgol ym 1868. Dywedodd nad oedd hi'n hawdd gan fod llawysgrifen y penaethiaid yn anodd iawn ei darllen yn y cofnodion cynnar.

### 3) Pennaeth y Flwyddyn yng Nghymru - Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Estynnodd yr Aelod Llywyddol ei longyfarchiadau i Janet Waldron (MBE), Pennaeth Ysgol Gyfun Pontarddulais, am gael ei henwi'n Bennaeth y Flwyddyn yng Nghymru yn seremoni Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru.

### 4) Gwobrau Myfyrwyr Coleg Gŵyr 2018

Estynnodd yr Aelod Llywyddol ei longyfarchiadau i'r awdurdod am ennill Gwobr 'Partner Cyflogwr' y flwyddyn yng Ngwobrau Myfyrwyr Coleg Gŵyr 2018. Derbyniodd y Cynghorydd Wil Evans Blac Gwydr a siec sy'n daladwy i Gronfa'r Arglwydd Faer ar ran yr awdurdod.

## 5) Gwobrau Blynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan 2018

Estynnodd yr Aelod Llywyddol ei longyfarchiadau i Wasanaeth Tîm am y Teulu Abertawe am ennill ei ail wobr mewn 6 mis. Yn ddiweddar, enillodd y tîm Wobr Cyngor Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan/Academi Wales 2018 am ei fodel TAT mewn Ysgolion yn y categori Gwerth Cyhoeddus.

Mae'r tîm yn fenter arloesol a chynaliadwy a ddatblygwyd i rymuso a datblygu sgiliau staff ysgolion cynradd i gefnogi plant a'u teuluoedd i ymdrin â chamau cynnau heriau cymdeithasol. Mae'r tîm wedi diweddaru sgiliau gweithwyr mewn 73 o'r 79 o ysgolion cynradd yn y ddinas gan wella eu hyder a'u gallu i gefnogi teuluoedd diamddiffyn, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu cyn gynted â phosib gan bobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

Mae hyn wedi arwain at leihau'r galw am wasanaethau mwy dwys, cynnig mwy ymatebol i deuluoedd yn eu cymunedau eu hunain ac adborth cadarnhaol gan ysgolion o ran gallu darparu cefnogaeth yn hyderus ac yn uniongyrchol i gefnogi lles plant a'u teuluoedd.

O ganlyniad i ennill Gwobr Gwasanaetauh Cyhoeddus Cenedlaethol y Guardian, cafwyd diddordeb parhaus ym model y tîm ar draws Cymru ac ymhellach i ffwrdd. Ar ddechrau mis Mehefin, bu Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Seland Newydd yn ymweld â'r Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar yr oedd diddordeb mawr ganddo mewn dysgu mwy am yr arfer a'r ymagweddau arloesol a ddatblygwyd yma yn Abertawe. Bydd yr Athro Karen Graham, cynrychiolydd Cymru a’r DU ar Sefydliad Fforwm y Byd, yn cyflwyno gwaith y tîm yn Fforwm y Byd 2019.

## 6) Cymru - Cenedl Masnach Deg Gyntaf y Byd

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, ar 6 Mehefin 2008 Cymru oedd y Genedl Masnach Deg Gyntaf yn y Byd, a bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers hynny. Mae cefnogi a hyrwyddo Masnach Deg yn dal i fod yn ffordd bwysig i gynghorau ddangos eu hymrwymiad i Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Penderfynodd y Cabinet ym mis Awst 2004 gefnogi Masnach Deg, fel rhan o gais Abertawe i fod yn Ddinas Masnach Deg, gan helpu Cymru i gyflawni ei statws fel Cenedl Masnach Deg. Dros y misoedd nesaf, gofynnir i'r awdurdod hwn adnewyddu'r penderfyniad hwnnw a fydd yn fwy manwl na'r gwreiddiol. Gobeithio, gall Abertawe barhau i arwain y ffordd wrth fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**7) Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2017**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol ddinasyddion Abertawe a/neu bobl â chysylltiadau ag Abertawe a dderbyniodd wobrau yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**a) Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE)**

i) Yr Athro Jill Hunter. *Athro Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Am wasanaethau i Fydwreigiaeth ac Addysg Bydwreigiaeth yn y DU ac yn Ewrop.* (Sgeti, Abertawe).

**b) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Janet Waldron. Pennaeth Ysgol Gyfun Pontarddulais. Am wasanaethau i Addysg. (Castell-nedd Port Talbot).

**c) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Joan E. Darbyshire. Am wasanaethau elusennol. (West Cross, Abertawe);

ii) Wendy A Pressdee. Am wasanaethau i bêl-rwyd. (Pennard, Abertawe);

iii) Ruth Ridge. Am wasanaethau i Gymdeithas Gŵyr a chymuned Gŵyr. (West Cross, Abertawe).

**8) Pen-blwydd hapus i Aneira Thomas o Gasllwchwr, sy'n 70 oed, ac i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**

Estynnodd yr Aelod Llywyddol longyfarchiadau ar ran y cyngor i Aneira Thomas o Gasllwchwr ar ei phen-blwydd yn 70 oed. Ganed Aneira yn fuan ar ôl canol nos ar 5 Gorffennaf 1948 ar ôl i'r bydwragedd annog ei mam gyda'r geiriau "Hang on Edna...". Aneira oedd y baban cyntaf i gael ei geni dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a bellach mae'n treulio'i hamser yn teithio'r wlad fel cefnogwr ac eiriolwr grymus ein GIG.

Estynnodd hefyd longyfarchiadau'r cyngor a oedd hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed.

**9) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**i) Eitem Agenda 10 "Strategaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel"**

Nid oedd y siartiau cylch ar dudalennau 43-53 wedi'u hargraffu'n gywir. Dosbarthwyd y tudalennau sydd wedi'u diwygio.

**ii) Eitem Agenda 11 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2017-2018**

Mae angen i baragraffau 2.4 a 2.9 yr adroddiad gael eu diwygio er mwyn egluro'r Lwfans TGCh a'r Lwfans Cynhaliaeth. Dylai'r paragraffau ddarllen fel a ganlyn:

*"2.4 Mae'r **Lwfans TGCh** wedi'i bennu ar uchafswm o £1,808 dros gyfnod o 5 mlynedd (2017-2022). Mae hyn yn golygu £1,008 yn y flwyddyn yn dilyn ethol cynghorydd a £200 am bob blwyddyn wedi hynny. Nid oes angen i'r symiau gael eu cymryd mewn blwyddyn benodol ond ni ellir mynd y tu hwnt i £1,808.*

*2.9 **Lwfans Cynhaliaeth** - Mae'r costau hyn yn ymwneud ag unrhyw gostau cynhaliaeth a geir gan gynnwys llety a chostau cynadleddau/seminarau."*

**iii) 14) Eitem 14 yr Agenda, "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor"**

Dylai paragraff 3.1 a) a b) gael eu diwygio i ddarllen fel a ganlyn:

a) Rhan 3 - Cylch Gorchwyl - Gweithgor y Cyfansoddiad;
b) Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor - Rheolau Dadlau.

**iv) 3) Eitem 17 yr Agenda, "Rhybudd o Gynnig"**

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**10) Atal Rheol Gweithdrefn 17.2 y Cyngor "Rheolau Dadlau - Sefyll wrth Siarad"**

Cytunodd y cyngor i atal Rheol Gweithdrefn 17.2 y Cyngor er mwyn caniatáu i gynghorwyr aros yn eu seddi wrth siarad. Diben hyn yw cynorthwyo'r rheiny â phroblemau clyw.

## 15. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Y Penwythnos Mwyaf gan y BBC, Abertawe

Estynnodd Arweinydd y cyngor ei longyfarchiadau i bawb a oedd yn ymwneud â Phenwythnos Mwyaf y BBC, Abertawe, a gynhaliwyd ar 27 a 28 Mai 2018. Roedd y digwyddiad wedi gwerthu pob tocyn ac roedd yn un o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw mwyaf cyffrous yr haf, wrth i BBC Music a Radio 1 ddod ynghyd i gyflwyno deuddydd o berfformiadau gwych ym Mharc Singleton.

**2) Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y cyngor fod y Cabinet yn gynharach y diwrnod hwnnw wedi cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r ffrydiau ariannu cysylltiedig. Byddai adroddiad aM y Fargen Ddinesig yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ar 26 Gorffennaf 2018.

**3) Morlyn Llanw**

Dywedodd Arweinydd y cyngor y byddai'n cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddydd Llun 25 Mehefin 2018 lle byddai'n parhau i bwyso am ymateb cadarnhaol i'r cynllun.

**4) Deb Yeates – Yn gadael yr awdurdod**

Estynnodd Arweinydd y cyngor ei longyfarchiadau i Deb Yates ar ei hymddeoliad a dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol yn dilyn 37 mlynedd yn gweithio i lywodraeth leol. Dechreuodd Deb ei gyrfa fel Swyddog Personél i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn hen Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg. Gwnaeth ddatblygu ei gyrfa gyda'r awdurdod ac am beth amser roedd hi'n Bennaeth AD Gweithredol.

Un o gyflawniadau arbennig Deb yn ystod yr amser hwnnw oedd na wnaeth gymryd diwrnod o salwch.

**5) Chris Sivers – Porfeydd Newydd**

Estynnodd Arweinydd y cyngor ei longyfarchiadau i Chris Sivers ar ei rôl newydd yn Swydd Gaerloyw. Cyfeiriodd at ei 5 mlynedd yn Abertawe gan nodi ei chyflawniadau wrth gael gofal cymdeithasol ac addysg i gydweithio, gan ganolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a chomisiynu gwell.

## 16. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

## 17. Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 18. Diwygiadau I Adnewyddu Tai'r Sector Preifat Ac Addasiadau I'r Anabl: Polisi I Ddarparu Cymorth 2017-2022: Troi Tai'n Gartrefi A'r Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni a oedd yn amlinellu newidiadau arfaethedig i’r polisi presennol Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i Ddarparu Cymorth 2017-2022, yn dilyn newidiadau i gynllun Troi Tai'n Gartrefi a Chynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a chyhoeddi adendwm i'r polisi.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylai'r diwygiadau i gynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru a’r Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol fel a nodwyd yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo a'u cynnwys fel adendwm i Adnewyddu Tai ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi Cymorth i Ddarparu 2017-2022.

## 19. Strategaeth diogelwch cymunedol Abertawe mwy diogel.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell adroddiad, a oedd yn cyflwyno ymateb partneriaeth strategol ar gyfer cyflwyno blaenoriaethau fel a nodwyd yn Strategaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo Strategaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

## 20. Lwfansau a Gwariant Arian Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2017-2018.

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cyflwyno swm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i bob Cynghorydd ac Aelod Cyfetholedig yn ystod 2017-2018 dan y Cynllun Lwfansau Cynghorwyr.

Yn dilyn cais gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, cytunodd y cyngor y dylai paragraffau 2.4 a 2.9 yr adroddiad gael eu diwygio er mwyn egluro'r Lwfans TGCh a’r Lwfans Cynhaliaeth. Diwygiwyd y paragraffau i ddarllen fel a ganlyn:

*“2.4 Pennir y **Lwfans TGCh** ar uchafswm o £1,808 dros gyfnod o 5 mlynedd (2017-2022). Caiff hyn ei ddadansoddi fel £1,008 yn y flwyddyn yn syth ar ôl ethol cynghorydd a £200 bob blwyddyn yn dilyn hynny. Nid oes rhaid cymryd y symiau yn y flwyddyn benodol ond ni ellir mynd y tu hwnt i £1,808.*

*2.9 **Lwfans Cynhaliaeth** - Mae'r costau hyn yn ymwneud â chostau cynhaliaeth a geir gan gynnwys costau llety a/neu gostau cynadleddau/seminarau.”*

## 21. Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd mewn perthynas â Diwygio Llywodraeth Leol: 'Cryfhau Llywodraeth Leol - Cyflawni dros ein Pobl'

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad, a oedd yn cynnig ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol: ‘Cryfhau Llywodraeth Leol – Cyflawni dros ein Pobl’.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi ac ardystio'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol: 'Cryfhau Llywodraeth Leol - Cyflawni dros ein Pobl'.

**22. Uwch-strwythur Rheoli.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Strwythur Uwch-reoli newydd.

**Penderfynwyd:**

1) Bod y swyddi Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyfarwyddwr Pobl, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Swyddog Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau yn cael eu dileu o'r sefydliad;

2) Bod swydd Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei chreu a'i hysbysebu;

3) Bod swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei chreu a'i hysbysebu;

4) Bod swydd Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei chreu a'i hysbysebu;

5) Bod swydd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau yn cael ei disodli gan y swydd Prif Swyddog Ariannol a'i hysbysebu;

6) Bod rheolaeth y Prif Swyddog Gweithredu (sy'n wag ar hyn o bryd) yn cael ei diwygio ac y dylid ei benodi o'r Penaethiaid Gwasanaeth presennol;

7) Bod swydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes yn cael ei disodli gan swydd y Prif Swyddog Cyfreithiol a bod y deiliad presennol yn camu i'r swydd honno;

8) Bod swydd Dirprwy Brif Swyddog Cyllid yn cael ei chreu a'i hysbysebu;

9) Bod swydd Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol yn cael ei chreu a bod y deiliaid presennol yn camu i'r swydd honno;

10) Bod y Gyfarwyddiaeth Lleoedd yn cael ei diwygio fel a amlinellir ym mharagraff 6 yr adroddiad.

**23. Diwygiadau i gyfansoddiad y Cyngor.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r meysydd canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

a) Rhan 3 - Cylch Gorchwyl - Gweithgor y Cyfansoddiad;
b) Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor - Rheolau Dadlau.

**Penderfynwyd**:

1) Bod cylch gorchwyl Gweithgor y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys y llinell ganlynol:

*“3. Ystyried pob agwedd ar unrhyw adolygiadau ffiniau a chyflwyno argymhellion i'r cyngor fel y bo'n briodol."*

2) Diwygio Rheol Gweithdrefn 17 y cyngor "Rheolau Dadlau" i ddarllen fel a ganlyn:

*1* **"Parch i'r Cadeirydd**

*Pan fydd yr Aelod Llywyddol yn sefyll yn ystod dadl, rhaid i bob cynghorydd stopio siarad ar unwaith a dylai'r cyngor fod yn dawel.*

*2* ***Sefyll wrth Siarad***

*Rhaid i gynghorydd, wrth siarad yng nghyfarfod y cyngor, annerch yr Aelod Llywyddol; rhaid i bawb arall aros yn dawel, oni bai am godi pwynt o drefn, esboniad personol neu bwynt gwybodaeth.*

*Nid yw'r Rheol Gweithdrefn hon yn berthnasol i gyfarfodydd eraill y cyngor megis y Cabinet, pwyllgorau etc.*

*Pan fydd cynghorydd yn codi "pwynt o drefn", "esboniad personol" neu "pwynt gwybodaeth", mae paragraff 17(12) "Esboniad Personol, Pwynt o Drefn a Phwyntiau Gwybodaeth" yn berthnasol. Os digwydd hyn, bydd y cynghorydd yn parhau i siarad.*

***3*** ***Trefn Siarad***

*Os bydd dau gynghorydd neu fwy'n dymuno siarad, bydd yr Aelod Llywyddol yn galw ar un ohonynt a bydd yn rhaid i'r lleill fod yn dawel. Gall yr Aelod Llywyddol benderfynu a chyhoeddi y bydd cynghorwyr yn cael eu galw mewn trefn benodol ar bwyntiau penodol yn ystod y ddadl. Neu, gall yr Aelod Llywyddol hefyd benderfynu agor rhestr o gynghorwyr sy'n dymuno siarad ac i gyfyngu ar nifer y siaradwyr i'r rhai a nododd fwriad i siarad cyn cau'r rhestr. Bydd yr Aelod Llywyddol yn cyhoeddi pan fydd y rhestr yn cau."*

**Noder:** Erys gweddill Rheol Gweithdrefn 17 y Cyngor "Rheolau Dadlau" yn ddigyfnewid.

**24. Aelodaeth Pwyllgorau.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau/newidiadau i gyrff y cyngor.

Dywedodd nad oedd Arweinydd y Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i aelodaeth cyrff allanol yr awdurdod.

**1) Panel yr Heddlu a Throseddu**
Tynnu enw'r Cynghorydd K M Roberts.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**
Tynnu enw'r Cynghorydd M C Child.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd E J King.

**2) Pwyllgor Archwilio**
Dileu enw'r Cynghorydd B Hopkins.
Ychwanegu swydd Lafur wag.

**25. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd naw (9) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 2**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley y canlynol:

*i) "All Arweinydd y cyngor ddarparu manylion i'r cynghorwyr am brydles newydd Stadiwm Liberty, yn arbennig newidiadau i elfen drwsio/cynnal a chadw'r brydles?"*

Nododd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

2) **'Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd pum (5) 'cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer'.

**26. Hysbysiad o gynnig - Cynghorwyr P M Black, C A Holley, A M Day, L G Thomas, C L Philpott, J W Jones & M H Jones.**

Cafodd yr hysbysiad o gynnig ei dynnu yn ôl.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.36 pm

**Cadeirydd**